

Dinasyddion gwlad newydd

“Oherwydd yn y nefoedd y mae ein dinasyddiaeth ni.” (adn. 20)

Beth am ddarllen Philipiaid 3:12–21 ac yna myfyrio

Yn awr yr ydym am symud ymlaen i fyfrio ar agwedd ddiddorol iawn o’r thema. Y ffaith, yn ôl yr apostol yn ein testun heddiw, yw ein bod yn ddinasyddion y nefoedd. Beth a olyga bod yn ddinasydd y nefoedd? Beth am edrych ar gyd–destun yr adnod am eiliad?

Mae’r apostol wedi bod yn sôn am y rhai sydd â’u meddyliau ar bethau daearol. Y rhain yw gelynion croes Crist yn adnod 18. Mae’r gwir Gristionogion, yn ôl Paul, yn edrych at y pethau sydd yn dragwyddol ac mae eu bryd ar bethau nefol.

Roedd Philipi fel dinas yn ddinas Rufeinig, ac ar gyfrif hyn roedd ei phobl yn mwynhau breintiau ei stad. Ond mae Paul am i’r darllenwyr yma ddeall fod ganddynt ddinasyddiaeth uwch na hyn. Roeddent yn ddinasyddion y nefoedd. Mae bod yn ddinasydd y nefoedd yn golygu ein bod trwy ein bywyd yma ar y ddaear yn ufuddhau i gyfraith y wladwriaeth, yn talu ein trethi, yn ymddwyn yn anrhydeddus ac yn onest ym mhob amgylchiad. Ond mae ein gwir gariad mewn lle arall. Gorchmynion y nefoedd sydd uchaf yn ein bywyd ni, a meddwl brenin y nefoedd yw’r meddwl yr ydym ni am ei adnabod.

Mae’r byd yr ydym yn byw ynddo yn gadael ei ôl ar bob un ohonom. Mae ei farnau yn effeithio arnom ni. Nid yw ei amgylchiadau yn ein cynorthwyo yn ein pererindod ysbrydol, ac mae ei bwysau arnom mewn mil o ffyrdd. Hawdd iawn, heb ddeall, yw cydymffurfio â’r byd. Mae Paul yn rhybuddio rhag hyn yn Rhufeiniaid 12:2. Fe ddylem fod yn ddinasyddion ffyddlon yn y wlad lle rydym yn byw, ond mae’n ffyddlondeb i’n gwlad yn eilradd, oherwydd yn gyntaf yr ydym am fod yn ffyddlon i’n dinasyddiaeth yn y nefoedd.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Luc 22:24–30; 1 Pedr 1:4; Dat. 21:27

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth a ddarluniodd Iesu i’w ddisgyblion?
2. Beth yw cofrestr dinasyddion y nefoedd?

Gweddi

O Dad, mae’n gyffrous i ystyried fy mod, er yn ddinasydd mewn gwlad, mewn cymuned, eto, yn sylweddoli mai yn y nefoedd mae fy ninasyddiaeth dragwyddol. Bydded i gyfreithiau’r nefoedd lwyddo ym mhob peth y byddaf yn ei wneud. Gofynnaf hyn yn enw Iesu Grist. Amen.